# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Mai 2023

Amser: 09.00 - 09.20

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar y Cynllun Cyflenwi ar gyfer Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio (30 munud)
- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.35pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 16 Mai 2023**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.5 i sefydlu pwyllgor Senedd (5 munud)

- Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Diwygio etholiadol (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Lleihau llwyth gwaith (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – Cyhoeddi Cynllun Gweithredu (Cyfnod 1) Adroddiad y Grŵp Arbenigol (30 munud)

**Dydd Mawrth 23 Mai 2023**

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar Wasanaethau Bysiau (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Costau Byw (30 munud)
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio (30 munud)~~ – *gohiriwyd tan 6 Mehefin*

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 7 Mehefin 2023 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Strategaeth a chynllun gweithredu seilwaith gwefru cerbydau trydan Llywodraeth Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer: Buffy Williams (Rhondda) (30 munud)

### 3.4 Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – dethol cynnig i'w drafod

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynnig arfaethedig ar gyfer dadl a chytunwyd i'w amserlennu i'w drafod ar 17 Mai:

**Janet Finch-Saunders**

**NNDM8230**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i sicrhau bod datblygwyr adeiladau uchel iawn yn gyfrifol am faterion diogelwch.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) creu dyletswydd ar ddatblygwyr i ad-dalu lesddeiliaid am gostau rhesymol a gronnwyd o ganlyniad i faterion diogelwch adeiladau; a

b) gwahardd unrhyw ddatblygwr sy'n gwrthod cyweirio'r diffygion diogelwch tân ar adeiladau a ddatblygwyd ganddynt rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiadau newydd yng Nghymru.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cafodd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol a chytunodd ar y canlynol:

- i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3)  ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio tan 5 Mehefin;

- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus tan 8 Mehefin;
- cyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at ddibenion craffu, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Mehefin.

## 5 Rhaglen waith weithdrefnol

### 5.1 Rhaglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes

Trafododd y Pwyllgor Busnes raglen ddiwygiedig ar gyfer ei waith gweithrefnol, a chytunodd arni, gan gynnwys trafod ymhellach yr eitemau a ganlyn cyn cyn toriad yr haf:

- Cyflwyno ‘uwch-ddadleuon’ yn y Cyfarfod Llawn
- Diwygiadau gweithdrefnol ar ôl Brexit
- Biliau Aelodau
- Materion sy'n codi o ganlyniad i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Cytunodd y Pwyllgor i roi ystyriaeth bellach i waith gweithdrefnol a all fod yn ofynnol o ganlyniad i ddiwygio'r Senedd pan fydd deddfwriaeth wedi'i chyflwyno.